



## Y PROSIECT

## MYNEDFA COPSE LANE

## Y CLEIENT

## AUK

## GWERTH Y CONTRACT

## £3.6M

## Y NOD

Dewiswyd yr Hollingsworth Group i ddarparu mynedfa newydd i AUK Brychdyn. Materion allweddol i dderbyn sylw oedd y rhyngwynebau wrth ffurfio'r ddolen gyda Ffordd Gaer ac wrth weithio o amgylch mynedfa gyfredol Ffatri'r Gogledd

## GALLUOGI

Cyn i unrhyw waith gychwyn ar y safle, bu'r Hollingsworth Group yn cydlynu cynllun graddfa fawr i leihau'r effaith ar yr ecoleg gan ddefnyddio timau o arbenigwyr ac ecolegwyr trwyddedig.

Roedd y gwaith yn cynnwys llunio datganiad o ddull yn nodi mesurau rhesymol i wneud y canlynol: osgoi effeithio ar y fadfall gribog gan gynnwys tynnu glaswellt yn ofalus iawn a chwilio gyda'r dwylo; osgoi unrhyw effeithiau posibl gan y gwaith adeiladu cyn ac yn ystod y prosiect ar y gymuned o lygod y dŵr yn lleol; osgoi'r effaith ar nythu adar ac ystlumod yn y caeau lle'r oedd gwaith yn digwydd ac yn yr adeiladau oedd i gael eu dymchwel yn y pecyn galluogi





Hollingsworth Group (UK) Ltd  
St. Ives Way  
Engineer Park  
Sandycroft  
Sir y Fflint CH5 2QS

Ffôn: 01244 539922

Ffacs: 01244 538504

[www.hollingsworthgroup.co.uk](http://www.hollingsworthgroup.co.uk)

## Y DULL

Dyrannwyd rheolwyr penodol o fewn y grŵp ar gyfer y gwaith ar y porthdy a'r cynordy (Hollingsworth Ellery) a'r gwaith allanol (Hollingsworth Bros) oedd yn cynnwys y 278 o weithiau'n cysylltu gydag asiantaeth leol y priffyrdd.

Roedd y canopi mawreddog yn ymestyn dros y fynedfa bresennol i'r safle felly cafodd ei ddylunio a'i adeiladu mewn dau ran. Yn ystod y broses adeiladu, cafodd y systemau traffig presennol eu symud i deithio drwy'r safle er mwyn galluogi i'r strwythur gael ei gwblhau.

Roedd y rheolaeth ar y cerddwyr a'r traffig yn cynnal traffig Ffordd Gaer wrth i gyffordd newydd gael ei hadeiladu. Roedd hyn hefyd yn gofyn cynllunio gofalus gydag asiantaeth y priffyrdd a gosod system oleuadau traffig Siemens barhaol

Roedd y prosiect hefyd yn cynnwys cwlfwr a llyn gwanhau 5700m<sup>3</sup>, system rwydi adar arbenigol, a'r holl systemau diogelwch a mynediad newydd i amddiffyn y fynedfa newydd

## Y CANLYNIADAU

Cwblhawyd holl weithgareddau'r Hollingsworth Group o fewn yr amserlen ddiffiniedig

Ni chafwyd unrhyw broblemau'n ymwneud â gwyradau traffig o amgylch y porthdy amddiffyn neu Ffordd Gaer drwy gydol y prosiect.

Ni chofnodwyd unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau yn ystod y prosiect

## CRYNODEB

Denodd y prosiect cyflawn lawer o sylw yn y wasg. Mae'r ffyrdd mynediad a'r adeiladau'n ffurfio canolbwynt newydd i ymwelwyr y safle a gweithlu Brychdyn.